**ADRODDIAD I'R CABINET**
(6.10.2015)

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas

**Pwnc:** Argymhelliad i gau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau fel rhan o gynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau Llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru.

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

---

## Y penderfyniad a geisir

Argymell bod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cynnig o fewn y ddogfen ymgynghorol i gau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau.

---

## Barn yr aelod lleol

Nid yw'n fater lleol.

---

## Cyflwyniad

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y broses o gynnal ymgynghoriad cenedlaethol ar ddyfodol ystad y Llysoedd a Thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Fel rhan o'r ymgynghoriad hyn mae argymhelliad i gau 11 Llys a Thribiwnlys yng Nghymru, gan gynnwys Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau yng Ngwynedd.

Mae'r cysylltiadau isod yn cynnwys ddogfen ymgynghorol a'r asesiad effaith ar y newidiadau arfaethedig:
https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/proposal-on-the-provision-of-court-and-tribunal-es

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/proposal-on-the-provision-of-court-and-tribunal-es/user_uploads/welsh---impact-assessment---hmcts-estates-v21-final--3-.pdf

Nodir y bydd yr ymgynghoriad hefyd yn edrych ar fynediad i'r system gyfiawnder gan nodi nad yw'n angenrheidiol delio gyda'r holl achosion wyneb yn wyneb ac y bydd modd gwneud defnydd o dechnoleg fodern er mwyn gwneud y system gyfiawnder yn fwy hygyrch i'r dyfodol.

### Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Mae'r adolygiad i weld yn canolbwyntio ar gostau ac "effeithlonrwydd" defnydd yr ased, ond heblaw am awgrymu trefniadaeth annelwig ar gyfer trefniadau neilltuol, nid yw'n cyffwrdd ar yr egwyddor y dylai bobl Gwynedd gael mynediad mor rhwydd a phosibl i weinyddiaeth cyfiawnder sef holl bwrpas y gwasanaeth.

Argymhellir felly fod y Cyngor yn gwrthwynebu'n llwyr y cynigion yma gan awgrymu fod yr Adran Weinyddiaeth Cyfiawnder yn pwyso'r angen i sicrhau mynediad.

### Ystyriaethau perthnasol

### Y cynnig ar gyfer Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau

Cynigir cau y Llys gan drosglwyddo gwrandawiadau i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Nodir hefyd y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ail-leoli gwaith sy'n deillio o ardal sydd i'r de o ddalgylch Dolgellau i Ganolfan Cyfiawnder Aberystwyth.

Noda'r ymgynghoriad nad yw'r adeilad Llys presennol yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau cyfiawnder i'r dyfodol oherwydd oedran yr adeilad, gofod cyfyngedig, yr angen i hebrwng carcharorion ar y palmant cyhoeddus a'r ffaith nad oes modd gwahanu dioddefwyr, tystion a diffynyddion. Yn ogystal pe byddai'r Llys yn aros ar agor byddai angen cyflawni gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio sylweddol er mwyn dod ag o i fyny i safon tra ceir darpariaeth modern ac addas i bwrpas eisoes yn Llysoedd Caernarfon ac Aberystwyth.

Mae'r ddogfen yn nodi ymrwymiad y Weinyddiaeth i weithio gyda chymunedau gwledig ac i glywed eu barn ar ddarparu ffyrdd amgen i'r cyhoedd o fewn yr ardaloedd hynny gael mynediad at y system gyfiawnder. Tra nodir y gall hyn gynnwys ddefnyddio adeiladau dinesig neu gyhoeddus eraill ar gyfer gwrandawiadau achlysurol, cyswllt fideo, neu wrandawiadau dros y ffôn neu ar bapur i osgoi teithio yn gyfan gwbl nid oes gwybodaeth fanwl wedi ei gynnwys ar gyfer beth fyddai yn ei olygu yn achos yr achosion y delir ag hwy yn Nolgellau ar hyn o bryd.

Ar gyfer 2014/15 roedd llwyth gwaith a defnydd y Llys yn 14% o'r capasiti. Noder i bwrpas y datganiad hyn fod y Weinyddiaeth yn defnyddio'r data llwyth gwaith ar gyfer y Llys ond mae'r capasiti yn seiliedig ar y fethodoleg fod y Llys ar agor bob dydd (248 o ddyddiau) tra mai dim ond 1 diwrnod yr wythnos y mae Llys Dolgellau ar agor.

Yn ystod 2014/15 bu Llys Ynadon Dolgellau mewn defnydd am 171 awr.

Oddeutu £56,000 oedd costau gweithredu y Llys ar gyfer blwyddyn ariannol 14/15.

### Effaith ar y defnyddwyr

Ar hyn o bryd mae 73% o'r dalgylch y mae'r Llys yn ei wasanaethu yn gallu teithio i'r Llys mewn car mewn llai na awr tra mae'r gweddill yn gallu gwneud hynny rhwng awr a 2 awr. Byddai cau y Llys yn golygu mai dim ond 15% o'r cymunedau hynny fyddai'n medru

teithio i'r Llys o dan awr, 39% hefo taith rhwng awr a 2 awr tra byddai 46% wedyn hefo taith o dros 2 awr mewn car.

Wrth edrych ar amser teithio ar drafnidiaeth cyhoeddus ar hyn o bryd mae 34% o'r dalgylch a wasanaethir yn gallu teithio i'r Llys o dan awr, 44% yn gallu teithio yno rhwng awr a 2 awr gyda 19% ddim yn gallu gwneud y siwrnai. O gau y Llys byddai 14% hefo siwrnai o rhwng awr a 2 awr, 19% gyda siwrnai o dros 2 awr a 67% ddim yn gallu gwneud y siwrnai.

Tra bod gwasanaeth bws rheolaidd yn gwasanaethu'r llwybr rhwng Dolgellau a Chaernarfon a rhwng Dolgellau ac Aberystwyth (gyda chost tocyn dwyffordd ar gyfer y 2 daith yn £6.00) nid yw'r un peth yn wir ar gyfer yr ardaloedd cyfagos y mae'r Llys presennol yn ei wasanaethu.

O ddefnyddio'r fethodoleg sydd wedi ei defnyddio yn y ddogfen ymgynghorol ar gyfer cyfrifo amseroedd teithio i'r Llys (cyrraedd erbyn 10am a gadael am 5pm) rydym wedi edrych ar opsiynau teithio o bentref Brithdir i Lysoedd Ynadon Caernarfon ac Aberystwyth a mae'r rhain wedi eu hamlinellu yn y tabl isod.

*Caernarfon*

| Brithdir | Llys Ynadon Caernarfon | Amser Teithio | Modd teithio a nifer o newidiadau ( ) |
|---|---|---|---|
| 5.20 | 9.57 | 4.37 | Cerdded, Bws, Trên (2) |
| 8.29 | 10.42 | 2.13 | Cerdded, Bws (1) |

| Llys Ynadon Caernarfon | Brithdir | Amser Teithio | Modd teithio a nifer o newidiadau ( ) |
|---|---|---|---|
| 17.37 | 19.44 | 2.07 | Cerdded, Bws (1) |
| 18.52 | 23.28 | 4.36 | Cerdded, Bws, Trên (2) |

*Aberystwyth*

| Brithdir | Llys Ynadon Aberystwyth | Amser Teithio | Modd teithio a nifer o newidiadau ( ) |
|---|---|---|---|
| 5.20 | 8.32 | 3.12 | Cerdded, Bws, Trên (2) |
| 8.29 | 10.23 | 1.54 | Cerdded, Bws (1) |

| Llys Ynadon Aberystwyth | Brithdir | Amser Teithio | Modd teithio a nifer o newidiadau ( ) |
|---|---|---|---|
| 17.59 | 19.42 | 1.43 | Cerdded, Bws (1) |
| 18.20 | 20.41 | 2.21 | Cerdded, Bws, Trên (2) |

* Noder fod yr holl deithiau uchod yn golygu cerdded rhwng 400 a 800 metr.

Gwelir o'r tablau mai 1 opsiwn yn unig a fyddai i gyrraedd y Llys yng Nghaernarfon ac Aberystwyth erbyn 10 yn y bore wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n golygu taith hir ar fws a thrên sy'n golygu mai'r unig opsiwn ymarferol i deithio i'r Llysoedd i'r dyfodol fyddai hefo car.

O ganlyniad mae lle i gredu y byddai gweithredu'r argymhellion yn debygol o olygu cyfyngu mynediad mwyafrif yr unigolion i'r system gyfiawnder. Dengys ymchwil hefyd fod cyswllt rhwng lefelau isel o berchnogaeth car a lefelau isel o incwm ac amddifadedd materol felly byddai gweithredu'r argymhellion yn debygol effeithio ar y rhai tlotaf o fewn ein cymunedau.

Tra nodir bwriad i gyflwyno trefniadau amgen er mwyn lleihau'r angen i gwrdd wyneb yn wyneb nid yw'r wybodaeth a gyflwynir ar hyn o bryd yn ein galluogi i sefydlu beth yw'r gyfran o'r achosion yr ymdrinnir a hwy ar hyn o bryd yn y Llys y gellid delio a hwy yn y modd hynny a faint fyddai'n symud i lysoedd Caernarfon ac Aberystwyth felly mae'n anodd sefydlu beth fyddai'r union effaith.

Nid oes yna unrhyw aelodau staff wedi eu lleoli yn y Llys felly ni fyddai goblygiadau i staff.

## Camau nesaf ac amserlen

Daw'r ymgynghoriad i ben ar yr 8fed o Hydref felly bydd angen cyflwyno unrhyw ymateb i'r ddogfen ymgynghorol erbyn hynny.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

### Y Swyddog Monitro:
Cyflwynir unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb a chyfansoddiadol yn y cyfarfod.

### Y Pennaeth Cyllid:
Rwy'n cydnabod nad yw adeilad Llys Dolgellau yn cwrdd â safonau ar hyn o bryd, a bod pob gwasanaeth cyhoeddus angen darganfod arbedion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n cytuno gyda sylwadau'r awdur y gallai cau'r ddarpariaeth yn y dref arwain at gyfyngu mynediad rhai unigolion i'r system gyfiawnder.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at y cyfnod o amser a gymerir i deithio o Ddolgellau i Gaernarfon ac Aberystwyth, ond fel y mae'r adroddiad yn ei ddangos,

byddai teithio o drefi a phentrefi eraill Meirionnydd yn achosi cryn drafferthion ehangach.

Tra bod gan y Cyngor rôl i amddiffyn buddiannau pobl Gwynedd, rhaid cofio fod y Cyngor yn cyflwyno ceisiadau i'r Llys am orchmynion, er enghraifft mewn achosion o ôl-ddyledion Treth Cyngor. Byddai cau Llys Dolgellau yn sicr o gael effaith negyddol ar ddelwedd y Cyngor, gan fyddai'n golygu'r angen i lusgo unigolion o Feirionnydd un ai i Gaernarfon, neu i Aberystwyth, ar gyfer gwrandawiadau ôl-ddyled Treth Cyngor, sy'n faes cynhenid sensitif p'run bynnag.

O safbwynt cynnig cefnogaeth i bobl Gwynedd, ar hyn o bryd gellir cyfeirio unigolion y syth o Lys Dolgellau i swyddfeydd y Cyngor yng Nghae Penarlâg, Dolgellau, er mwyn derbyn arweiniad am hawl i fudd-daliadau neu ostyngiad Treth Cyngor. Ni fydd modd gwneud hyn pe bai'r Llys mewn sir arall.

---

## Dogfennau Ymgynghorol

Cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd yng Nghymru (Cyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2015)
https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/proposal-on-the-provision-of-court-and-tribunal-es

Asesiad Effaith cynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar ddarpariaeth gwasanaethau Llysoedd (Cyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2015)
https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/proposal-on-the-provision-of-court-and-tribunal-es/user_uploads/welsh---impact-assessment---hmcts-estates-v21-final--3-.pdf